Prifysgol Metropolitan Caerdydd
TGAU Cymraeg Prawf Cyfwerth
Papur enghreifftiol.

1 awr 30 munud

Enw:

Cwrs:

Dyddiad geni:

Cyfarwyddiadau i'r ymgeiswyr:

Atebwch bob cwestiwn.

Adran A: Cywirdeb iaith / prawf ddarllen: 30%.

Adran B: Darllen a Deall; ymateb i destun 35%

Adran C: Ysgrifennu Rhydd 35%

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn hwn.

Awgrymir eich bod yn treulio eich amser gan ddilyn y canllawiau canlynol:

Adran A - tua 20 munud

Adran B - tua 15 munud yn darllen a thua 15 munud yn ysgrifennu

Adran C - tua 10 munud yn cynllunio a thua 20 munud yn ysgrifennu.

Dylech dreulio 10 munud yn prawf-ddarllen eich gwaith ar ddiwedd y papur.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Adran A: Cywirdeb Iaith; Prawf ddarllen: 30 marc.

Atebwch bob cwestiwn.

Yn yr adran hon byddwch yn cael eich asesu ar gywirdeb eich sgiliau ysgrifennu a'ch gallu i brawf-ddarllen a chywiro iaith.

Atebwch bob cwestiwn.

(A i) Gosodwch **y / yr / 'r** o flaen y geiriau canlynol. Mae un enghraifft wedi ei chwblhau'n barod. Nodwch y treiglad cywir hefyd os yn berthnasol. [5 marc].

Enghraifft: disgybl: y disgybl

Gwers: .....

Merched: .....

Ymarfer: .....

Tasg: .....

Munud: .....

(A ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch √ wrth yr ateb cywir [4 marc].

yn cyflym	yn gyflym
yn dod	yn ddod
yn llwyddiannus	yn lwyddiannus
mor diog	mor ddiog.

(A iii) Cywirwch y brawddegau canlynol. Dylech ysgrifennu'r frawddeg yn gywir ar y llinell. [5 marc]

[1] Mae hi ddim yn bwrw glaw: ……

[2] Clywais bod mae Sian yn dod:……

[3] Rhedodd ni am y bws:…….

[4] Ces i ddim amser da yn y wers heddiw:……

[5] Mae mor gymaint o blant yn siarad Cymraeg: ……

(A iv): Geiriau tebyg. Ffurfiwch **2 frawddeg** i esbonio'n eglur ystyr y termau hyn (1 marc am bob brawddeg – 2 frawddeg i bob ateb). [16 marc]

Enghraifft: Cymru / Cymry: Mae Cymru'n wlad hardd heb os. Mae traddodiad yn bwysig i'r Cymry.

[1] Cymraeg / Cymreig: ……

……

[2] Ei / eu: ……

……

[3] Mor / môr: ……..

……

[4] Byth / erioed: ……

……

DIWEDD RHAN A.

RHAN B: Darllen ac Ymateb.

Darllenwch yr erthygl a ymddangosodd yn y cylchgrawn Golwg eleni (Mai 2020): ‘Cefnu ar y syniad o symud gwyliau’r haf’. Atebwch y cwestiynau sydd yn dilyn isod.

1 Mae’r awdur yn defnyddio’r term ‘radical’ i ddisgrifio syniadau gwahanol y Llywodraeth. Dewiswch 2 ddiffiniad o’r rhestr isod i gyfleu ystyr y gair hwn:

[2]

a) newydd
b) cymryd risg
c) ymarferol
d) gwahanol

2 Pwy yw Kirsty Williams a beth yw ei rôl yn y sefyllfa yma? [3]

3 Pwy yw’r bobl allweddol eraill sydd yn cymryd rhan yn y trafodaethau hyn? Ydych yn meddwl bod yr arbenigwyr yma’n cytuno? Esboniwch eich ateb. Ysgrifennwch baragraff cryno.

[5]

4 Mae'r erthygl yn codi dadleuon o blaid ac yn erbyn agor ysgolion yn ystod gwyliau'r haf. Yn eich geiriau eich hun, crynhowch y dadleuon o blaid ac yn erbyn hyn yn yr erthygl hon. Llenwch y grid isod [10]

O blaid	Yn erbyn

5. Yn eich geirau eich hun, dadansoddwch arddull ac effaith yr erthygl. Pwy yw'r gynulleidfa darged? Ydy'r erthygl yn deg ac yn ddiduedd? Ydy'r awdur yn llwyddo i roi darlun ffeithiol a threfnus? Dylech gyfeirio nôl at yr erthygl wrth lunio eich ateb.

Wedyn dylech nodi eich barn bersonol am y pwnc 'Symud Gwyliau Haf'.

Ysgrifennwch 2 baragraff yn y grid isod – dadansoddiad o'r erthygl ac ymateb i'r pwnc.
[15]

Dadansoddiad o'r erthygl:

Ymateb personol i'r pwnc:

DIWEDD RHAN B

RHAN C: YSGRIFENNU RHYDD.

Yn y dasg hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu. Dewiswch **un o'r canlynol** i ysgrifennu amdano.

Bydd 20 marc am gynnwys a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir. [35 marc]

Dylech geisio ysgrifennu o gwmpas 200 o eiriau. Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.

Naill ai, (a) Rydych chi eisiau dechrau clwb gweithgareddau awyr agored yn eich ysgol. Ysgrifennwch daflen wybodaeth i'r disgyblion yn esbonio:

• bwriad y clwb

• beth yw'r gweithgareddau

• pam dylai'r disgyblion ymuno â'r clwb

Neu, (b) Rydych chi wedi bod ar gwrs gweithgareddau awyr agored. Ysgrifennwch ddyddiadur / blog yn sôn am eich profiadau.